# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 27
28/09/20

## Rahab a'r ysbïwyr

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!




**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Elin Bryn a Gwyn Rhydderch


An English version is also available


**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**



# Stori

*Ar ôl 40 mlynedd yn cerdded o amgylch yr anialwch, fe gyrhaeddon nhw eto yn agos at y wlad roedd Duw wedi'i haddo iddyn nhw. Bu farw Moses a daeth ei gynorthwyydd Joshua yn arweinydd newydd.*

## Fersiwn Beibl.net

Dyma Josua fab Nwn yn anfon dau ysbïwr allan o'r gwersyll yn Sittim, a dweud wrthyn nhw: “Dw i eisiau i chi ddarganfod beth allwch chi am y wlad, yn arbennig tref Jericho.” Felly, i ffwrdd â nhw, a dyma nhw'n mynd i dŷ dynes o'r enw Rahab, ac aros yno dros nos. Ond dyma rywun yn dweud wrth frenin Jericho, “Mae rhai o ddynion Israel wedi dod yma i ysbïo'r wlad.” Felly dyma'r brenin yn anfon milwyr at Rahab, “Tyrd â dy gwsmeriaid allan – y dynion sydd wedi dod i aros yn dy dŷ di. Ysbiwyr ydyn nhw, wedi dod i edrych dros y wlad.” Ond roedd Rahab wedi cuddio'r dynion, a dyma hi'n ateb, “Mae'n wir, roedd yna ddynion wedi dod ata i, ond doeddwn i ddim yn gwybod o ble roedden nhw'n dod. Pan oedd hi'n tywyllu, a giât y ddinas ar fin cael ei chau dros nos, dyma nhw'n gadael. Dw i ddim yn gwybod i ba gyfeiriad aethon nhw. Os brysiwch chi, gallwch chi eu dal nhw!” (Ond beth roedd Rahab wedi'i wneud go iawn oedd mynd â'r dynion i ben to'r tŷ, a'u cuddio nhw dan y pentyrrau o lin roedd hi wedi'u gosod allan yno.) Felly dyma weision y brenin yn mynd i chwilio amdanyn nhw ar hyd y ffordd sy'n arwain at afon Iorddonen, lle mae'r rhydau. A dyma giât y ddinas yn cael ei chau yn syth ar ôl iddyn nhw fynd.



Cyn i'r ysbiwyr fynd i gysgu'r noson honno, dyma Rahab yn mynd i fyny i'r to i siarad gyda nhw. Meddai wrthyn nhw, “Dw i'n gwybod yn iawn fod yr ARGLWYDD yn mynd i roi'r wlad yma i chi. Mae gan bawb eich ofn chi. Mae pawb yn ofni am eu bywydau. Dŷn ni wedi clywed sut wnaeth yr ARGLWYDD sychu'r Môr Coch o'ch blaenau chi pan ddaethoch chi allan o'r Aifft. A hefyd, sut wnaethoch chi ddinistrio dau frenin yr Amoriaid, Sihon ac Og, yr ochr arall i afon Iorddonen. Pan glywson ni am y peth roedden ni wedi digalonni'n llwyr. Roedd pawb mewn panig. Mae'r ARGLWYDD eich Duw chi yn Dduw yn y nefoedd uchod ac i lawr yma ar y ddaear! Dw i eisiau i chi fynd ar eich llw, ac addo i mi o flaen yr ARGLWYDD, y byddwch chi'n arbed bywydau fy nheulu i, fel dw i wedi arbed eich bywydau chi. Rhowch arwydd sicr i mi na fyddwch chi'n lladd neb yn fy nheulu – dad, mam, fy mrodyr a'm chwiorydd, na neb arall yn y teulu.” A dyma'r dynion yn addo iddi, “Os wnei di ddim dweud wrth neb amdanon ni, byddwn ni'n cadw'n haddewid i ti pan fydd yr ARGLWYDD yn rhoi'r wlad yma i ni. Boed i ni dalu gyda'n bywydau os cewch chi'ch lladd!” Yna dyma Rahab yn eu gollwng nhw i lawr ar raff o ffenest ei thŷ. (Roedd wal allanol ei thŷ hi yn rhan o wal y ddinas.) “Ewch i gyfeiriad y bryniau,” meddai wrthyn nhw. “Fydd y dynion sydd ar eich ôl chi ddim yn dod o hyd i chi wedyn. Cuddiwch yno am dri diwrnod, i roi cyfle iddyn nhw ddod yn ôl. Wedyn gallwch fynd ar eich ffordd.” Dyma'r dynion yn dweud wrthi, “Allwn ni ddim ond cadw'r addewid wnaethon ni i ti ar un amod: Pan fyddwn ni'n ymosod ar y wlad, rhwyma'r rhaff goch yma iddi hongian allan o'r ffenest wnaethon ni ddianc drwyddi. A rhaid i ti gasglu dy deulu i gyd at ei gilydd yn y tŷ – dy dad, dy fam, dy frodyr a dy chwiorydd, a phawb arall. Os bydd unrhyw un yn gadael y tŷ ac yn cael ei ladd, nhw eu hunain fydd ar fai – fydd dim bai arnon ni. Ond os bydd unrhyw un sydd yn y tŷ yn cael niwed, ni fydd yn gyfrifol. Ond os byddi di'n dweud wrth unrhyw un amdanon ni, fyddwn ni ddim yn gyfrifol am dorri'r addewid.”
“Digon teg,” meddai hithau. A dyma hi'n eu hanfon nhw i ffwrdd, ac yn rhwymo'r rhaff goch i'r ffenest. Dyma nhw'n mynd i'r bryniau, ac yn aros yno am dri diwrnod – digon o amser i'r dynion oedd yn chwilio amdanyn nhw fynd yn ôl. Roedd y rheiny wedi bod yn edrych amdanyn nhw ym mhobman ar hyd y ffordd, ond wedi methu dod o hyd iddyn nhw.
Yna dyma'r ddau ddyn yn troi am yn ôl. Dyma nhw'n dod i lawr o'r bryniau, croesi afon Iorddonen, a mynd at Josua i roi adroddiad iddo o beth oedd wedi digwydd. “Does dim amheuaeth,” medden nhw. “Mae'r ARGLWYDD yn mynd i roi'r wlad i gyd i ni! Mae'r bobl i gyd yn ofni am eu bywydau!”

*Josua 2 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Anfonodd Josua ddau ysbïwr i mewn i Jericho ac aeth y ddau ohonyn nhw i dŷ gwraig o’r enw Rahab i gael llety dros nos. Dywedodd rhywun wrth Frenin Jericho, “Mae rhai o ddynion Israel wedi dod yma i ysbïo’r wlad.” Anfonodd y Brenin filwyr i dŷ Rahab. “Ble mae’r dynion sydd wedi bod yn aros yma?” gofynnodd y milwyr “ysbïwyr ydyn nhw.” Atebodd Rahab, “maen nhw wedi mynd ond dwi ddim yn gwybod pa ffordd aethon nhw.” Aeth y milwyr i chwilio am y dynion ond roedden nhw’n cuddio ar ben to tŷ Rahab. Cafodd giatiau y ddinas eu cau.
Aeth Rahab at y dynion cyn iddi fynd i gysgu, “Rwyf am eich helpu i ddianc ond rhaid i chi addo i mi y byddwch yn edrych ar fy ôl i a fy nheulu pan fyddwch yn ymosod ar y ddinas.” Rhoddwyd rhaff coch i Rahab i rwymo ar ei ffenest i atgoffa’r Israeliaid beidio ag ymosod ar ei chartref. Dihangodd y ddau ysbïwr trwy’r ffenest ac aethant am y bryniau i guddio rhag y milwyr.



# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:




1. Wyt ti erioed wedi addo rhywbeth pwysig i rywun? Neu efallai fod rhywun wedi addo rhywbeth pwysig i ti.
2. Pam ei fod yn bwysig cadw addewid?
3. Pwy sy’n addo rhywbeth yn yr hanes am y wlad maen nhw mynd i’w hysbïo?
4. Pa addewidion mae Duw wedi eu gwneud i ni?


# Stori i'w lliwio

# Rahab a'r ysbïwyr

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau Richard Gunther





Bu farw Moses a daeth Josua yn arweinydd newydd plant Israel ac arweiniodd nhw i mewn i'r wlad roedd Duw wedi ei haddo iddynt.




Roedd yn amser i fynd i mewn i'r wlad roedd Duw wedi ei haddo i blant Israel. Anfonodd Josua ddau ysbïwr i archwilio dinas Jericho er mwyn gweld pa mor gryf oedd eu byddin yno.



Fe wnaeth y ddau ysbïwr smalio mai ymwelwyr oedden nhw, ond mewn gwirionedd roedden nhw'n edrych i weld pa mor gryf oedd y waliau a faint o filwyr fyddai angen i blant Israel eu hymladd.



Ond fe wnaeth rhywun adnabod y dynion a mynd i ddweud wrth y brenin mai ysbïwyr oedden nhw a'u bod yn aros yng nghartref Rahab, oedd yn byw yn agos i un o'r waliau. Anfonodd y brenin filwyr i chwilio amdanyn nhw.



Roedd Rahab yn gwybod fod Duw wedi achub plant Israel rhag y Brenin Pharo a bod Duw yn bwerus ac yn gryf. Cyn i'r milwyr gyrraedd cuddiodd hi'r ddau ysbïwr.



"Cuddiwch yn y fan yma ar y to, o dan y llin hyn rydw i wedi eu sychu. Pan fydd Duw yn rhoi'r ddinas hon i chi, cofiwch achub fy nheulu," meddai Rahab.




Chwiliodd y milwyr ymhob twll a chornel o'r tŷ ond wnaethon nhw ddim dod o hyd i'r ddau ysbïwr. Mae'n rhaid eu bod wedi dianc meddyliodd y milwyr ac aethant i'w hymlid.



Y noson honno gollyngodd Rahab y ddau ddyn yn ofalus â rhaff tu allan i waliau'r ddinas. "Cofia adael cortyn coch yn hongian allan o dy ffenest ac fe gofiwn ni dy achub," meddai'r ysbïwyr wrth Rahab.

# Posau

## Croesair




### I lawr

1. Aeth dau ohonyn nhw i archwilio'r wlad
2. Dinas fawr yn y wlad
4. Arhoson nhw yn nhŷ'r ddynes hon
6. Beth wnaethon nhw ei ddefnyddio i ddianc o'r ddinas?
8. Beth wnaethon nhw addo ei wneud dros y ddynes a'i theulu?


### Ar draws

2. Enw'r arweinydd
3. Y rhai a aeth i chwilio am y ddau ddyn
5. Y person pwysig wmaeth glywed am y ddau ddyn
7. Wnaeth y ddynes eu cadw nhw'n … ar y to.
9. Beth wnaethon nhw ar ben y to?

## Datrys y cod

Defnyddia'r tabl i dy helpu i ddatrys y cod a darganfod yr adnod.

| A | a | c | ch | D |
|---|---|---|---|---|
| ⚒ | 🛇 | 🕷 | ♥ | 👁 |
| d | dd | e | f | g |
| ⏮ | ✕ | 🚲 | △ | ✈ |
| i | l | M | m | n |
| ⓘ | 👂 | ⏸ | 🗗 | ♬ |
| o | r | u | w | y |
| 📅 | 🕸 | ⚡ | ᴀA | ( ) |



Josua 2 adnod 11

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| J | A | I | O | R | DD | O | N | E | N | DD | J |
| C | O | CH | R | W | Y | D | A | L | W | G | D |
| G | L | S | W | R | O | CH | I | R | E | J | M |
| U | DD | I | U | C | A | E | S | W | FF | E | D |
| I | U | O | A | A | N | H | O | A | E | RH | I |
| C | L | RH | A | FF | D | A | A | L | A | DD | N |
| U | U | LL | U | R | Y | W | I | B | S | Y | A |
| DD | E | O | F | E | N | N | LL | D | O | W | S |
| I | T | G | E | O | I | DD | U | RH | G | L | Y |
| O | N | O | F | LL | O | W | L | N | W | G | CH |
| B | F | A | FF | E | N | E | S | T | D | R | U |
| DD | U | N | G | RH | A | I | D | A | E | A | R |

ADDEWID
AFON
ARGLWYDD
COCH
CUDDIO
DAEAR
DIANC
DINAS
DUW
DYNION
FFENEST
GWLAD
IORDDONEN
JERICHO
JOSUA
LLIN
NEFOEDD
OFN
RAHAB
RHAFF
RHOI
TEULU
TO
WAL
YSBIWYR

# Sialensau

Beth am greu cyfarchiad cyfrinachol i'ch teulu chi? Efallai bydd yn ffordd arbennig o gyffwrdd penelin neu wincio, neu ddawns fach. Defnyddia dy ddychymyg!





Defnyddia Lego i ailadrodd yr hanes.





Adeilada ffau/wâl i guddio rhag y milwyr. Cofia sut wnaeth Rahab guddio'r ysbïwyr a'u helpu i osgoi milwyr y Brenin Jericho.



# Gweddi Greadigol




## Cadwyn weddi

Yn yr hanes o'r Beibl yr wythnos hon, mae Rahab eisiau cadw ei theulu yn ddiogel. Mae hi'n gosod rhaff goch yn y ffenest fel arwydd.

**Bydd angen:**

- Papur coch wedi ei dorri yn stribedi a phin ffelt du neu bapur gwyn wedi ei dorri'n stribedi a phin ffelt goch.
- Glud

**Beth i'w wneud:**

- Meddylia am aelodau o dy deulu.
- Ysgrifenna enw un ohonyn nhw ar un stribed papur.
- Wrth i ti ysgrifennu, dweda 'diolch' wrth Dduw am y person hwn, a gofynna iddo ofalu amdano.
- Gluda un pen o'r papur I'r pen arall.
- Gwna'r un fath gyda'r darn nesaf o bapur a gwna gylch i gysylltu yn y cylch cyntaf.
- Gwna dy gadwyn weddi gyn hired ag wyt ti eisiau a'i hongian yn dy ffenest.



## Dolenni



Fideo o'r stori https://www.youtube.com/watch?v=3oCbLhkwr_U




Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/Z8GqgAtlwyQ




Cartŵn o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?v=tWkbq50tH5A

# Rysáit



## Bariau Rice Krispies

**Cynhwysion**
- 250g = 5 neu 6 Mars Bar
- 300g o siocled gwyn
- 150g o fenyn
- 100g o Rice Krispies
- 2 lwy fwrdd o syrup
- Tiwbiau o eisin ffondant du, gwyn a lliwiau eraill

**Dull**
- Ira ac yna leinia'r tun pobi ( 6 x 12 modfedd) â phapur pobi.
- Torra'r Mars bars yn ddarnau llai a'u rhoi mewn bowlen sy'n gwrthsefyll gwres.
- Ychwanega'r menyn.
- Todda'r cyfan mewn bowlen arall sydd yn cynnwys dŵr poeth.
- Ychwanega'r syrup.
- Cymysga'r cyfan yn dda.
- Rho'r gymysgedd yn y tun pobi sydd wedi ei leinio, a'i bwyso i lawr yn gadarn nes mae'n llyfn ac yn dynn wrth ei gilydd.
- Torra'r siocled gwyn yn ddarnau llai a'i feddalu drwy roi'r bowlen mewn sosban o ddŵr sy'n mudferwi.
- Arllwysa'r siocled gwyn, tawdd a'i daenu dros y gymysgedd Rice Krispies i gyd gan ddefnyddio spatula.



**Gwneud Llygaid ar Gyfer yr Ysbïwyr**
- Addurna'r siocled gwyn â lluniau o lygaid drwy ddefnyddio'r tiwbiau o eisin ffondant du, gwyn a lliwiau eraill.



# Gweddi fer

O Dduw,
diolch i Ti dy fod Ti yn cadw dy addewidion bob amser.
Diolch i Ti am ein caru ni â chariad mor anferthol.
Diolch i Ti dy fod wedi addo y byddi Di gyda ni bob amser.
Amen.

# Gêm

## Cuddio a chwilio gyda chwpanau

**Byddi angen:**

- Tua 5 – 10 o botiau iogwrt gwag (neu cwpanau), mae’r nifer yn dibynnu ar oedran y plant sy’n chwarae
- 2 – 7 o bobl Lego, Playmobil, neu ffigurynnau bach eraill sy’n ffitio o dan y potiau

**Sut i Chwarae**

- Gosoda’r bobl ar y bwrdd a rho bot iogwrt drostyn nhw. Yna symuda’r potiau iogwrt o gwmpas.
- Wedi hynny caiff y chwaraewyr gymryd eu tro i ddyfalu ble mae’r bobl yn cuddio.

Neu

- Gofynna i bob chwaraewr droi eu cefnau atat.
- Gosoda’r bobl ar y bwrdd a gorchuddia pob un ohonynt â phot iogwrt.
- Yna gofynna i bob chwaraewr droi a chymryd ei dro i ddyfalu ble mae’r bobl yn cuddio.



# Canu



Dwyt Ti ddim angen Sat-Nav
i wybod lle ydw i.
Dwyt Ti ddim angen e-bost
i anfon neges ata i.
Dwyt Ti ddim angen ffôn symudol
i glywed be dwi'n ddweud.
Dwyt Ti ddim angen YouTube
i weld be dwi 'di gwneud.
Dwyt Ti ddim angen Twitter
i ddilyn fy niwrnod i.
Dwyt Ti ddim angen cam'ra i weld
pa fath o blentyn ydw i.
Dwyt Ti ddim angen Google
i wybod amdana i.
Dwyt Ti ddim angen Facebook
i fod yn ffrind i mi.

Achos Ti 'di Duw,
ac rwyt Ti'n gwybod popeth;
O! Ti 'di Duw,
Ti'n gweld popeth sy'n bod;
Ie! Ti 'di Duw
a Ti'n gallu gwneud unrhywbeth.
O Dduw, 'sgen Ti ddim help ond fy ngharu i.
O Dduw, 'sgen Ti ddim help ond fy ngharu i.

*Hawlfraint 2012 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/Z8GqgAtlwyQ

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org